Y CYNGOR CEFN GWLAD/ PROSIECT MEISTR PRIFYSGOL SALFORD 2002 BIOAMRYWIAETH, CYMDEITHAS A'R ECONOMI

YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL A CHRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

TEITL Y PROSIECT
SUT MAE GWEITHREDU DROS FIOAMRYWIAETH YN SICRHAU MANTEISION CYMDEITHASOL AC ECONOMAIDD: ASTUDIAETH O ARFERION DA A DRWG GAN AWDURDODAU LLEOL A PHARCIAU CENEDLAETHOL YNG NGOGLEDD CYMRU.

Zoe Catherine Joel Macnaughton, MSc Gwarchod yr Amgylcheddol, Adran Gwarchod yr Amgylcheddol, Prifysgol Salford

11 Medi 2002

Crynodeb

Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn ffyrdd pwysig o sicrhau bod y strategaeth genedlaethol a gyflwynir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig yn cael ei throsi yn weithredu effeithiol ar y lefel leol.

Mae'r astudiaeth hon yn canfod, drwy gyfrwng cyfweliad/holiadur lled-strwythuredig, a all gweithredu'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a'r prosiectau sy'n deillio o Weithredu Lleol ar Fioamrywiaeth, sicrhau nid yn unig fanteision amgylcheddol ond hefyd fanteision cymdeithasol-economaidd yn ardal y cynllun.

Gan ddefnyddio tair astudiaeth achos yng Ngogledd Cymru, aseswyd manteision disgwyliedig a manteision gwirioneddol y Gweithredoedd Lleol ar Fioamrywiaeth. Mae'r argymhellion i'r dyfodol yn disgrifio lle mae gwaith pellach i gynnwys sectorau allweddol megis busnesau lleol yn ofynnol.